## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

**NAFWC 2014 (Papur 5 Rhan 1)**
**Adroddiad a Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau**

**Dyddiad:** 14 Mawrth 2011
**Amser:** 17.00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif ffôn yr awdurn:** Marc Wyn Jones, estyniad 8505

# Adroddiad a Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.*

**1.0 Diben a chrynodeb o'r materion**

**1.1.** Y Bwrdd Taliadau, a sefydlwyd gan fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, yw'r corff annibynnol statudol sy'n gyfrifol am bennu tâl a lwfansau Aelodau'r Cynulliad. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd gyflwyno ei Benderfyniad yn ysgrifenedig a chyfleu ei Benderfyniad wrth y Comisiwn.

**1.2.** O dan Adran 12 a 15 o'r Mesur, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi unrhyw Benderfyniad ac adroddiad sy'n cydfynd ag ef a gaiff eu llunio gan y Bwrdd a'u gosod gerbron y Cynulliad cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

**2.0 Argymhellion**

**2.1.** Gofynnir i'r Comisiwn nodi Penderfynaid ac adroddiad y Bwrdd Taliadau, a'u cyhoeddi ar y wefan ddydd Mawrth 15 Mawrth.  Hefyd caiff y Penderfyniad a'r adroddiad eu gosod yn ffurfiol yn y Swyddfa Gyflwyno ar yr un diwrnod.

## 3.0 Trafodaeth

**3.1.** **Y Bwrdd Taliadau yw'r corff annibynnol statudol sy'n gyfrifol am bennu tâl a lwfansau Aelodau'r cynulliad.**

**3.2.** **Ar yr achlysur cyntaf y bydd yn gwneud Penderfyniad, mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar y Bwrdd i roi sylw i argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, a gyflwynodd ei adroddiad yn 2009, ac, os yw'n dewis gwyro oddi wrth unrhyw rai o'r 108 argymhelliad, ei fod yn nodi'r rhesymau dros wneud hyn yn ysgrifenedig.**

**3.3.** **Bydd Penderfyniad y Bwrdd, a'r adroddiad sy'n cyd-fynd ag ef, ar gael i'r Comisiwn ar 14 Mawrth.**

**3.4.** **O dan Adran 12 a 15 o'r Mesur, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi unrhyw Benderfyniad ac adroddiad sy'n cyd-fynd ag ef a gaiff eu llunio gan y Bwrdd a'u gosod gerbron y Cynulliad cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.**